Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w lyfr diweddaraf, beth sy'n ei ysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

# Dod i adnabod

## Bethan Gwanas



Graddiodd Bethan mewn Ffrangeg ym Mhrifysgol Aberystwyth cyn gwneud amryfal swyddi yn cynnwys gweithio gyda'r VSO yn Nigeria, dod o hyd i 'extras' ar gyfer *Rownd a Rownd*, dysgu plant Cymru sut i ganŵio a dringo yng Nglan-llyn a chyflwyno rhaglenni garddio a theithio. Erbyn hyn, mae wedi cyhoeddi dros 40 o lyfrau amrywiol ar gyfer plant, pobl ifanc, oedolion iaith gyntaf a dysgwyr. Mae'n caru cŵn, coginio a beicio ac yn casau gwaith tŷ!




### Crynodeb:

*Cadi a'r Gwrachod* yw'r llyfr diweddaraf yn y gyfres boblogaidd am Cadi, y ferch fach ddireidus. Mae Cadi yn gwneud rhywbeth ofnadwy i Mabon, ei brawd bach, ac mae'n rhaid iddi ofyn am help gan y gwrachod. Ond yn gyntaf, rhaid i Cadi eu helpu nhw. Stori berffaith ar gyfer Noson Calan Gaeaf!

**Beth wnaeth eich ysbrydoli i ysgrifennu *Cadi a'r Gwrachod*?**

Mae llyfrau Cadi yn gyfres bellach, a hon yw'r pumed gyfrol. Fy ngor-nith, Cadi Fflur, ysbrydolodd y llyfr cyntaf, *Coeden Cadi*, ac mi fydda i wastad yn ymgynghori efo hi a'i brodyr, Caio a Mabon, i weld os ydyn nhw'n hoffi fy syniadau. Ac fel mae'n digwydd, Mabon (8 oed) oedd isio'r gwrachod! Dwi wedi sgwennu llyfrau oedolion am wrachod, ond ro'n i wir isio sgwennu llyfr plant amdanyn nhw a Chalan Gaeaf ac ati am ei fod yn gymaint o hwyl, ac ro'n i'n gwybod y byddai Janet, yr arlunydd, yn cael andros o hwyl arni.

**Beth wnaeth eich ysbrydoli i ddechrau ysgrifennu?**

Y mwynhad o ddarllen. Y funud ddysgais i ddarllen, roedd llyfrau yn fy hudo, ac ro'n i isio gallu sgwennu llyfrau Cymraeg fyddai'n hudo darllenwyr yn yr un modd. Llyfrau efo straeon sy'n cydio yn y dychymyg ac yn gwneud i chi ysu i wybod be sy'n digwydd nesa. *Amdani!* oedd fy nofel gyntaf ac mi wnes i sgwennu honno ar gyfer fy ffrindiau oedd yn credu bod nofelau Cymraeg i gyd yn anodd, yn ddiflas ac yn rhy llenyddol iddyn nhw.

**Pa brofiadau o lyfrgelloedd sydd wedi dylanwadu arnoch drwy eich bywyd?**

Mi fues i'n gweithio yn llyfrgelloedd Caernarfon a Dolgellau, ac roedd yn brofiad mor ddifyr a hwyliog, mi ges fy ysbrydoli i sgwennu nofel i ddysgwyr am lyfrgellydd sy'n dysgu Cymraeg: *Bywyd Blodwen Jones*, a'r llyfr hwnnw ydi fy 'ngwerthwr gorau' i!

Y fan lyfrgell fyddai'n dod rownd ffermydd bob wythnos oedd un o uchafbwyntiau fy ieuenctid i; roedd pori drwy'r silffoedd a dewis llyfrau i mi ac i Dad yn bleser pur.

**A oes gennych unrhyw gynlluniau ar gyfer teitlau pellach?**

Oes, dwi wrthi'n gweithio ar nofel ar gyfer pobl ifanc wedi ei lleoli yn oes y Derwyddon a'r Rhufeiniaid. O ran Cadi, mae Janet yr arlunydd – a Mabon – yn meddwl y byddai *Cadi a'r môr-ladron* yn deitl da...